## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 8 Ebrill 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMc), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), Partner Busnes AD (JW), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Geraint Lloyd-Williams

## CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i gyfarfod Cyngor llawn Cyngor Sir Ddinbych.

Estynnwyd croeso hefyd i Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar y pwynt hwn, derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, ar ran nifer fawr o drigolion o Ddinbych yn dilyn cwympiadau ar rai o'r palmentydd a achosodd i un trigolyn dorri ei fraich.

## 2 DATGANIAD CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr canlynol gysylltiad personol yn Eitem 10 - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

Y Cynghorwyr, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Colin Hughes, Martyn Holland, Hugh Carson Irving, Julian Thompson-Hill, Peter Owen, David Smith, Alice Jones, Jason McLellan, Paul Penlington, Barry Mellor, Carys Guy, Robert Murray, Gareth Sandilands, Cheryl Williams, Barbara Smith, Janet Ann Davies, Huw Williams, Dewi

Owens, Bill Tasker, Peter Duffy, Hugh Evans, Peter Evans, Jeanette Chamberlain Jones, Margaret McCarroll, Patricia Jones, Joan Butterfield, David Simmons, Ian Armstrong, Richard Davies, Bill Cowie, Stuart Davies, Bobby Feeley, Merfyn Parry, Joseph Welch, Huw Hilditch-Roberts, Gwyneth Kensler, Meirick Lloyd Davies, Huw Jones, Cefyn Williams, Arwel Roberts ac Eryl Williams.

Datganodd y Cynghorwyr Stuart Davies a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn yr eitemau canlynol hefyd:

- Eitem 6 – Diwygio'r Polisi Absenoldeb
- Eitem 7 – Polisi Gweithio Ystwyth
- Eitem 8 – Datganiad Polisi Cyflog

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim materion brys.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o alwadau dinesig a gyflawnwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod o 20 Chwefror 2014 – 18 Mawrth 2014 wedi cael ei chylchredeg cyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r canlynol:

- yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Brian Blakeley am fynychu rhai achlysuron ar ei ran.
- Aelodau a oedd yn bresennol yng Nghinio'r Cadeirydd yn Nhŷ Oriel, Llanelwy ar 28 Mawrth 2014.
- Staff yn y Gwasanaethau Democrataidd am eu digwyddiadau codi arian llwyddiannus a oedd wedi codi dros £1650.00 i Hosbis Plant Tŷ Gobaith, Conwy.
- Gwraig y Cynghorydd Cefyn Williams am wneud a gwerthu cacenni cri ar Ddydd Gŵyl Dewi a oedd wedi codi dros £100.

Estynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler longyfarchiadau i'r Cadeirydd am lwyddiant y Cinio yn Nhŷ Oriel a hefyd i'r côr a berfformiodd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o alwadau dinesig a gyflawnwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a nodi sylwadau'r Cadeirydd.*

**5 COFNODION**

Cafodd Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2014 eu cyflwyno.

Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, mewn perthynas ag Eitem 10 (tudalennau 12 ac 13) "Polisi Ymddeoliad Hyblyg", gan fod y cynnig gan y Cynghorydd Colin Hughes wedi methu, y dylid dangos y bleidlais o fewn y cofnodion.

Gan fod yr aelodau wedi gofyn am ddangos yr wybodaeth cytunwyd y byddai hon yn cael ei hychwanegu fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pleidleisiau a fwriwyd - | O blaid | - | 16 |
| | Yn erbyn | - | 21 |
| | Yn ymatal | - | 1 |

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 25 Chwefror 2014 fel cofnod cywir.*

## 6 DIWYGIO'R POLISI ABSENOLDEB

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, Y Cynghorydd Barbara Smith, yr adroddiad ar y Weithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) a oedd wedi'i nodi yn yr Agenda dan y teitl Diwygio'r Polisi Absenoldeb.

Byddai cyflwyno gweithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith newydd yn galluogi'r Cyngor i reoli absenoldeb mewn ffordd fwy rhagweithiol. Y nod fyddai gostwng nifer cyfartalog y diwrnodau sy'n cael eu colli am bob cyflogai ar draws y sefydliad a hefyd, felly, cynyddu cynhyrchiant a'r gwasanaethau a gyflenwir ar gyfer cwsmeriaid.

Roedd adolygiad sylweddol o reoli absenoldeb wedi cael ei gwblhau dros y deuddeng mis diwethaf. Roedd y weithdrefn newydd wedi canolbwyntio ar ymdrin â phryderon rheolwyr ac roedd yn cyflwyno proses eglur a strwythuredig i reolwyr ei dilyn ac i gyflogeion ei deall.

Cyfeiriwyd at y prif newidiadau fel a ganlyn:

- cyflwyno trothwyon – pedwar prif drothwy sy'n achosi i gyflogai gael ei roi mewn proses gallu i weithio oherwydd absenoldeb
- mwy o annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau i wasanaethau trwy ddileu'r Panel Rheoli Iechyd a chyflwyno proses archwilio fewnosodedig
- cyflwyno tri cham eglur ar gyfer gallu i weithio oherwydd absenoldeb gan ei gwneud yn bosib pennu targedau presenoldeb a'u monitro am gyfnod diffiniedig
- adolygiad o'r ddarpariaeth Iechyd Galwedigaethol gyda strwythur newydd a diffiniad o rolau i gefnogi presenoldeb yn y gwaith a rhoi cymorth i ddeall achosion absenoldeb, tueddiadau a sut i atal neu leihau absenoldeb.

Roedd y Polisi wedi cael ei gyflwyno yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 2 Ebrill 2014. Roedd y polisi wedi cael cefnogaeth ar y cyfan, ac eithrio materion sy'n ymwneud ag anabledd. Yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi cytuno i gynnwys y Polisi Anabledd fel rhan o'r adolygiad o Bolisïau Adnoddau Dynol allweddol ac adrodd yn ôl wrth y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol ar hynny.

Argymhellodd yr Aelod Arweiniol fod y Cyngor yn mabwysiadu'r weithdrefn.

Cafwyd trafodaeth fanwl ac fe godwyd y pwyntiau canlynol:

- sut fyddai dioddefwyr cam-drin domestig yn cael ystyriaeth dan y Polisi? Eglurodd y Partner Busnes Adnoddau Dynol fod y Polisi Absenoldeb wedi'i fwriadu'n gyfan gwbl i ymdrin â salwch a bod Polisïau eraill yn bodoli o fewn yr Awdurdod Lleol ar gyfer pobl ac arnynt angen amser o'r gwaith ar gyfer apwyntiadau eraill. Roedd y Polisi'n canolbwyntio ar bobl a oedd yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch a rhoi cymorth i reolwyr ddeall y rheswm dros yr absenoldeb.
- Roedd wedi cael ei gadarnhau y byddai'r Awdurdod Lleol yn monitro absenoldeb yn fisol. Byddai data ar absenoldeb hefyd yn cael ei gyflwyno i Aelodau'n rheolaidd i roi gwybodaeth gyson iddynt am ystadegau.

***PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngor Llawn yn cytuno i fabwysiadu'r Weithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith.*

## 7 POLISI GWEITHIO YSTWYTH

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, Y Cynghorydd Barbara Smith, gyflwyno'r Datganiad Polisi Gweithio Ystwyth (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol).

Byddai penderfyniad yn cael ei geisio gan y Cyngor Llawn ar fabwysiadu'r Datganiad Polisi Gweithio Ystwyth.

Roedd y Datganiad Polisi Gweithio Ystwyth wedi'i fwriadu i fod y polisi trosfwaol ynghylch sut y byddai cyflogeion yn gweithio yn y Cyngor wrth edrych tua'r dyfodol. Roedd yn cynnwys gweithio hyblyg, cyfathrebu, swyddfeydd, cymarebau desgiau, diogelwch gwybodaeth a thechnoleg a fyddai'n helpu'r Cyngor i weithio mewn ffordd fwy ystwyth a hyblyg.

Yng ngoleuni pryderon a godwyd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 2 Ebrill ynghylch cadernid yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gyffredinol, cytunwyd y dylid trosglwyddo'r mater i'r Cynghorydd Hugh Evans fel yr Aelod Arweiniol sy'n gyfrifol am Gydraddoldebau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch newid y teitl o "Polisi Gweithio Ystwyth" i "Polisi Gweithio Hyblyg".

***PENDERFYNWYD**:*

- *Y byddai'r Polisi Gweithio Ystwyth yn cael ei ailenwi, ac mai'r enw o hyn allan fyddai "Polisi Gweithio Hyblyg".*
- *Y byddai'r Datganiad Polisi Gweithio Hyblyg yn cael ei gytuno a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.*

## 8 DATGANIAD POLISI CYFLOG

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, Y Cynghorydd Barbara Smith, gyflwyno’r Adroddiad ar y Datganiad Polisi Cyflog (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad wedi cael ei baratoi i gwrdd â rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â Deddf Lleoliaeth 2011.

Roedd cymeradwyaeth yn cael ei cheisio i’r Datganiad Polisi Cyflog a oedd wedi cael ei ddrafftio’n unol â gofynion 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac yn cynnwys yr holl drefniadau presennol o ran cyflog ar gyfer grwpiau’r gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys Prif Swyddogion a’r cyflogeion â’r cyflogau isaf.

Roedd y Polisi Cyflog yr un fath â’r flwyddyn flaenorol i raddau helaeth ond roedd yn adlewyrchu’r codiad cyflog o 1% ar gyfer Staff y Cydgyngor Cenedlaethol, Soulbury ac Ieuenctid a’r codiad o 0% ar gyfer Prif Swyddogion. Nid oedd y setliad cyflog ar gyfer 2014/15 wedi cael ei gytuno eto.

Cafwyd trafodaeth a gofynnwyd am wybodaeth gymharol am gyflogau sy’n cael eu talu i weision sifil yng Nghaerdydd a San Steffan gan y byddai’n ddefnyddiol at ddibenion cymharu. Cytunwyd, gan fod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi’n genedlaethol, y byddai’r wybodaeth yn cael ei chydosod a’i dosbarthu i’r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai’r Cyngor yn cymeradwyo’r Datganiad Polisi Cyflog i gydymffurfio â’i rwymedigaeth gyfreithiol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011*

## 9 CYNLLUN CYFALAF

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, gyflwyno’r Cynllun Cyfalaf 2013/14 – 2016/17 ac argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (a gafodd eu cylchredeg yn flaenorol).

Roedd diweddariadau misol ar y Cynllun yn cael eu cyflwyno i’r Cabinet ac roedd y Cynllun Cyfalaf amcangyfrifiedig yn £36.468 miliwn ar hyn o bryd. Roedd y Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ychydig ers cyflwyno adroddiad arno i’r Cabinet ym mis Mawrth 2014.

Roedd y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu cynigion cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer cynnwys prosiectau yn y Cynllun Cyfalaf o 2014/15 ymlaen.

Roedd prosiectau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion Corfforaethol y Cyngor.

Byddai angen cwblhau ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a byddai unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod ar y cam hwnnw.

Nid oedd yr un prosiect cyfalaf heb risg; serch hynny byddai’r holl gynlluniau’n cael eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac yn destun gweithgarwch monitro ac adrodd misol parhaus.

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan aelodau, cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr isod:

- Roedd y Cyngor wedi gofyn am gyllid i atgyweirio pont Rhuddlan. Gan fod y bont yn adeiledd rhestredig, byddai astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal a chyllid yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru a CADW.
- Byddai angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd wedi'u diogelu at y dyfodol ac yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn paratoi datganiad gan nad oedd Polisi Amgylcheddol gan Gyngor Sir Ddinbych. Roedd cynlluniau mwy a oedd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn mynd i gynnwys elfennau amgylcheddol.
- Roedd gwaith ar Strategaeth Gaffael yn mynd rhagddo. Roedd model rhwng tair sir yn cael ei archwilio gan Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd. Roedd llawer o waith wedi cael ei wneud gyda'r tîm caffael dros y 12 mis blaenorol. Roedd gwaith i ddatblygu tîm ar y cyd gyda Sir y Fflint, i wneud Sir Ddinbych yn fwy gwydn, wedi bod yn digwydd. O fewn y 2 fis nesaf, byddai system gaffael newydd wedi'i sefydlu. Wedi hynny, byddai'r holl gontractau'n mynd trwy un broses.
- Roedd Cam 3 o'r elfen amddiffynfeydd môr arfordirol yn y Rhyl bron yn barod i ddechrau. Bu cais i ddod o hyd i fwy o gyllid i alluogi'r amddiffynfeydd môr i fod yn fwy cain e.e. gyda goleuadau a mannau eistedd. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig i wneud amddiffynfeydd môr yn flaenoriaeth.
- Nid oedd yr adroddiad yn manylu ar gynlluniau amrywiol a oedd yn costio llai na £30,000. Dywedodd yr aelodau yr hoffent i fanylion yr holl gynlluniau gael eu cylchredeg iddynt.
- Roedd Cefndy Enterprises wedi cael buddsoddiad i ddisodli peiriannau a oedd wedi dyddio. Byddai'r cymhorthdal yr oedd Sir Ddinbych yn ei dalu i Cefndy Enterprises yn cael ei ddirwyn i ben yn raddol ar gais Cefndy. O 2015/2016, ni fyddai cymhorthdal yn cael ei dalu mwyach.

Symudodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ymlaen at y crynodeb o Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (Cynllun Cyfalaf 2014/15) a oedd wedi'u nodi yn Atodiadau 5, 6 a 7.

Roedd setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 £22,000 yn is nag ar gyfer 2013/14. Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oedd dewis gan y Cyngor ond dibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol.

Roedd y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi cytuno i wahodd cynigion gan adrannau yn unol â'r dyraniadau bloc a oedd wedi'u cytuno'n flaenorol.

Cafwyd trafodaeth fanwl ac mewn ymateb i gwestiynau pellach a ofynnwyd gan aelodau, cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr isod

- Roedd gan y Cyngor dair blynedd i gyflawni derbyniadau gyda'r Cynllun Corfforaethol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau, lle'r oedd

adnoddau'n cael eu targedu, fod y Cyngor ar y trywydd cywir i gyflawni'r hyn yr oedd gofyn ei gyflawni.

- Roedd arian wedi cael ei ddyrannu ar gyfer atalfa ddiogelwch rhwng y ddwy ffordd gerbydau ar hyd yr A525 o Ruddlan i Lanelwy yn dilyn argymhelliad yn Adroddiad y Crwner ar ddamwain angheuol ar y ffordd 10 mlynedd ynghynt. Roedd cynnig wedi cael ei gyflwyno ond y teimlad cyffredinol oedd nad dyma fyddai'r ffordd briodol o fynd ati. Nid aeth y cynllun yn ei flaen a'r penderfyniad a wnaed oedd y byddai'r cyllid yn cael ei ailddyrannu ar gyfer cynnig diogelwch ar y ffyrdd.
- Cynigiodd y Cynghorydd Alice Jones ddiwygiad a fyddai'n golygu bod £80,000 arall yn cael ei ychwanegu at y swm a ddyrennir i Ystadau Amaethyddol. Cyflwynwyd eglurhad i'r aelodau, pe bai swm uwch yn cael ei ddyrannu i gynllun, y byddai'n rhaid wedyn didynnu swm cyfwerth o gynlluniau eraill i fantoli'r ffigyrau. Argymhellodd y Cynghorydd Alice Jones fod £80,000 yn cael ei ddidynnu o'r gronfa hapddigwyddiadau cyfalaf. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Cafwyd pleidlais, gydag 14 aelod yn pleidleisio o blaid y cynnig a 29 yn erbyn y cynnig. Felly methodd y diwygiad.

Felly,

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau:*

- *Yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf gydag elfen 2013/14 o'r Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar brosiectau mawr*
- *Yn cefnogi argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol a oedd wedi'u nodi yn Atodiad 5 a'u crynhoi yn Atodiad 6.*

**Ar y pwynt hwn (12.20 p.m.) cafwyd egwyl am 20 munud.**

**Fe ailgynullwyd y cyfarfod am 12.40 p.m.**

Cytunodd y Cadeirydd i amrywio'r eitemau a oedd yn weddill ar yr Agenda.

## 10 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) a oedd yn ceisio cytundeb i Gadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15 gael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2014. Roedd enwebiadau wedi cael eu ceisio ar gyfer y ddwy swydd.

**Ethol Cadeirydd** – Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, gyda'r Cynghorydd Win Mullen-James yn eilio, fod y Cynghorydd Brian Blakeley yn cael ei enwebu i fod yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach. Diolchodd y Cynghorydd Blakeley i'r aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei longyfarch ar ei enwebiad.

**Ethol Is-gadeirydd** – Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, gyda'r Cynghorydd Martyn Holland yn eilio, fod y Cynghorydd Dewi Owens yn cael ei enwebu i fod yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15. Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams, gyda'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn eilio, fod y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn cael ei henwebu i fod yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15. Cadarnhaodd y Cynghorydd Joan Butterfield na fyddai'r Grŵp Llafur yn cyflwyno enwebiad.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafwyd pleidlais gudd i ddewis yr Is-gadeirydd arfaethedig a chafodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ei henwebu i fod yn Is-gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15. Diolchodd y Cynghorydd Kensler i'r aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei llongyfarch ar ei henwebiad.

***PENDERFYNWYD*** *mai'r Cynghorydd Brian Blakeley fyddai Cadeirydd arfaethedig y Cyngor ac mai'r Cynghorydd Gwyneth Kensler fyddai Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2014/15 i gael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2014.*

## 11 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, Y Cynghorydd Barbara Smith, gyflwyno Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2014/15 (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol) i hysbysu'r Aelodau ynghylch adroddiad y Panel. Hefyd i Aelodau fabwysiadu'r argymhellion o fewn yr adroddiad a phenderfynu ar lefel y gydnabyddiaeth i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn amodi bod yn rhaid i'r Panel gyhoeddi adroddiad ar gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol.

Roedd y Panel wedi ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ganfod safbwyntiau Aelodau a swyddogion, yn ystod haf 2013.

Nid oedd y Panel wedi newid lefel y gydnabyddiaeth ers 2011. Yn flaenorol roedd y Panel wedi bod yn alinio'r Cyflog Sylfaenol a oedd yn cael ei dalu ag enillion gros canolrifol cyflogeion llawn-amser yng Nghymru. Yn y tair blynedd ddiwethaf, roedd gostyngiad wedi bod yn y cyllid i awdurdodau lleol ac roedd cyflogau yn y sector cyhoeddus wedi cael eu rhewi. Roedd y Panel wedi penderfynu yn ystod y cyfnod hwnnw na fyddai'n cadw'r aliniad ag enillion canolrifol a oedd wedi arwain at ostyngiad yn lefel y Cyflog Sylfaenol mewn termau real.

O ystyried bod y cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus wedi cael eu llacio ychydig, roedd y Panel wedi penderfynu cynyddu'r Cyflog Sylfaenol lai nag 1% o £13,175 i £13,300 ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

Roedd y Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod lleol bennu lefel y cyflog sy'n daladwy i Benaethiaid a Dirprwyon Cynghorau (Cadeirydd ac Is-gadeirydd) o blith tair lefel yr oedd y Panel wedi penderfynu eu bod yn daladwy. Nid oedd y lefelau

hyn yn gysylltiedig â maint y boblogaeth a lle'r awdurdod lleol oedd pennu'r lefel yn ôl y llwyth gwaith a'r cyfrifoldebau disgwyliedig.

Roedd y lefelau cyflog a oedd ar gael fel a ganlyn:

| | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| a) | £24,000 | £18,000 |
| b) | £21,500 | £16,000 |
| c) | £19,000 | £14,000 |

Y lefelau cyfredol a oedd yn daladwy i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd oedd £19,035 ac £14,805 yn y drefn honno.

Awgrymodd y Cynghorydd Barbara Smith wrth yr Aelodau y dylid ymdrin â lefelau cyflog y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar wahân. Cytunwyd ar hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Fand c) £19,000 ar gyfer y Cadeirydd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Owen.
- Cynigiodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies Fand b) £21,500 ar gyfer y Cadeirydd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones.

Cafwyd pleidlais ar lefel Cyflog y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Pleidleisiodd 20 aelod o blaid £21,500
- Pleidleisiodd 18 aelod o blaid £19,000
- Gofynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ei fod yn cael ei nodi ei bod hi wedi ymatal o'r bleidlais.

Felly derbyniwyd y cynnig y byddai Cyflog Cadeirydd y Cyngor ar gyfer 2014/15 yn £21,500.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Fand c) £14,000 ar gyfer yr Is-gadeirydd. Eiliwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland

Cafwyd pleidlais ar lefel cyflog yr Is-gadeirydd fel a ganlyn a phleidleisiodd 33 aelod o blaid Band c) £14,000 ac fe bleidleisiodd 4 yn erbyn.

Felly derbyniwyd y cynnig y byddai Cyflog Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2014/15 yn £14,000.

Ar y pwynt hwn, mynegodd y Cynghorydd Arwel Roberts wrthwynebiad. Argymhellodd y Cynghorydd Roberts na ddylid talu cyflogau ychwanegol i Gadeiryddion Pwyllgorau oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r ffaith y byddai'n arbediad ariannol i'r Cyngor.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd wedi'i gyflwyno gerbron y Cyngor yn berthnasol i swyddi a oedd yn denu uwch gyflogau. Roedd y

Cyngor wedi penderfynu yn 2012 mai dim ond 15 uwch gyflog fyddai'n cael eu talu, yn hytrach na'r 17 a argymhellwyd.

Roedd yn ofynnol, yn gyfreithiol, talu cyflog sylfaenol i'r holl aelodau a hefyd talu i Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf. Byddai'r penderfyniad ynghylch talu uwch gyflogau neu beidio'n cael ei wneud yn ôl disgresiwn yr aelodau.

Cafwyd trafodaeth ac fe gytunwyd, gan fod blwyddyn ariannol 2014/15 eisoes wedi dechrau, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol i drafod uwch gyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 a thu hwnt, ac i drafod a ddylid ymwrthod â'r uwch gyflogau.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams y dylai'r Gwasanaethau Democrataidd gynnal dadansoddiad ac adolygiad o lwythi gwaith aelodau. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

Cytunwyd y byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal dadansoddiad ac adolygiad o lwythi gwaith aelodau mewn perthynas â'r cyflog a delir.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau:*

- *yn mabwysiadu argymhellion y Panel ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 mewn perthynas â thalu Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau.*
- *yn pennu lefel y gydnabyddiaeth a fydd yn cael ei thalu i'r Cadeirydd (£21,500) a'r Is-gadeirydd (£14,000) ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.*
- *yn mabwysiadu argymhellion y Panel mewn perthynas â thaliadau i aelodau cyfetholedig.*
- *yn mabwysiadu'r cynllun taliadau i Aelodau a oedd wedi'i nodi yn Atodiad 3 wrth yr adroddiad.*
- *yn cytuno y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol ynghylch talu uwch gyflogau.*
- *yn cytuno y bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal adolygiad o'r llwythi gwaith sy'n gysylltiedig â swyddi a rolau amrywiol a ddelir ac sy'n cael eu cyflawni gan aelodau ac yn adrodd yn ôl.*

## 12 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y Rhybudd o Gynnig canlynol i'r Cyngor Llawn ei ystyried.

"rydym yn galw ar y Cyngor i wahardd yr arfer o ryddhau llusernau awyr o dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych".

Cafwyd trafodaeth ac argymhellodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a phenderfyniad yn cael ei wneud wedi hynny gan y Cabinet.

Cytunodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler â'r cynnig hwn.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai adroddiad ar lusernau awyr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac yn cael ei ystyried wedi hynny gan y Cabinet.*

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol)

<u>Sesiwn Briffio'r Cyngor 28 Ebrill 2014</u>
Heddlu Gogledd Cymru – Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (FCC) i gael ei ohirio tan 13 Mai 2014.

Atgoffodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr Aelodau am y gweithdai ar y gyllideb a oedd yn mynd i fod yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn. Roedd 14 Gorffennaf 2014 yn debygol o fod yn ddigwyddiad dros ddiwrnod cyfan. Byddai dyddiad dros dro, sef 1 Gorffennaf 2014, yn cael ei gadarnhau maes o law.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.40 p.m.**